

**Cyngor Cymuned Bontnewydd  
COFNODION CYFARFOD MISOL  
Chwefror 7fed 2013; 7 o'r gloch, Y Ganolfan, Bontnewydd**

**CYFLWYNIAD GAN PC MATTHEW TAPPING, HEDDLU GOGLEDD CYMRU ar ddiwyddiadau yn ardal Llanfaglan.**

*Fe gafwyd cyflwyniad diddorol a defnyddiol iawn gan PC Tapping. Fe adroddodd ar faterion yn ymwneud ag ardaloedd Llanfaglan, Caeathro a Bontnewydd ac erfynodd ar bawb i fod yn wyliadwrus yn arbennig am eitemau mewn siediau ble mae yna gynnydd yn y nifer o achosion o ladrata.*

*Mae yna larymau arbennig ar gyfer siediau sydd tua £5 yr un ac sydd yn effeithiol iawn. Mae rhain ar gael mewn storfeydd fel B&Q ac ati. Hefyd, oedd cofnodi rhifau adnabod, yn arbennig gyda eitemau electroneg neu fecanyddol yn bwysig iawn.*

*Gofynnodd am fewnbwn gan y cymuned ac adrodd i'r Heddlu, rhif ffôn 101 os nad yw'n argyfwng, os oes unrhyw beth rhyfedd yn digwydd yn yr ardal neu dieithriaid i weld yn crwydro, a fe ddarfododd ei gyflwyniad gan ddangos sustem Teledu Cylch Cyfyng syml gall ei archebu a'i gosod, sef Outback Portable Video 5MP Camera & Recorder, ar gael am tua £100.*

*Wedi iddo adael y cyfarfod, fe ddechreuwyd y cyfarfod misol.*

**PRESENNOL :**

*Yn bresennol oedd y Cadeirydd, Erddyn Davies, gyda'r Cynghorwyr Eddie Hughes, Geraint R. Jones, Gwyneth Thomas, Ifor D. Williams a Dafydd Iwan. Hefyd oedd y clercc, Mr Bryn Hughes, yn bresennol.*

**DATGAN DIDDORDEB / BUDDIANT PERSONOL**

*Fe ddatganodd Cynghorydd Dafydd Iwan ddiddordeb yn yr eitem yn ymwneud a'r Ganolfan, ond nid oedd yn fater a olygai iddo fynd allan o'r cyfarfod na'i rwystro rhag chymryd rhan yn y drafodaeth*

**YMDDIHEURIADAU**

*Cafwyd ymddiheuriadau gan Cynghorwyr Emyr Williams, Rhys Pugh, Sioned Williams a Marian Roberts, â'r Cynghorydd Sir, Chris Hughes.*

**Y GANOLFAN, BONTNEWYDD - Datblygu ac Ariannu'r datblygiad**

*Fe gytunwyd i'r rhaglen ariannu gafodd ei gyflwyno gan y Clerc. Mi fydd y rhaglen ariannu yn golygu y gall y Ganolfan symud ymlaen gyda'r datblygiadau angenrheidiol y sydd angen ei wneud i'r adeilad.*

**2013-14 Grant o £2,500 £1,200 at cynnal a chadw Cyfanswm o £3,700**

2014-15 o £3,850	Grant o £2,650	£1,200 at cynnal a chadw	Cyfanswm
2015-16 o £4,010	Grant o £2,810	£1,200 at cynnal a chadw	Cyfanswm
2016-17 o £4,180	Grant o £2,980	£1,200 at cynnal a chadw	Cyfanswm
2017-18 o £4,360	Grant o £3,160	£1,200 at cynnal a chadw	Cyfanswm

a olygai cyfanswm o £20,100 dros 5 mlynedd. Yn cynnig oedd Cynghorydd Geraint R. Jones gyda'r Cynghorydd Eddie Hughes yn eilio. Dim gwrthwynebiad.

**CARTREF BONTNEWYDD - Creu Mynedfa Amaethyddol ( Cais cynllunio C12/0262/19/LL)**

Fe ddarllenwyd llythyr cafodd y clerwr gan Mr P. Hywel Thomas, Rheolwr Rheolaeth Datblygu, Cyngor Gwynedd, yn datgan nad oedd yna ddystiolaeth fod yr adwy a nodir uchod yn mynd i'w gael ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall sydd ddim yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth ( er gwaethaf fod siglen wedi ei leoli ger y fynedfa ) a fe fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cadw golwg ar y sefyllfa er mwyn sicrhau fod y fynedfa ar gyfer defnydd amaeth yn unig.

**YMGYNGHORIAD AR Y BIL LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) (CYMRU)**

Fe adroddodd y Cynghorydd Geraint Jones ei fod wedi edrych ar yr ymgynghoriad a mai cwestiwn 8 yn y ffurflen ymateb oedd yr unig bwynt fyddai o bosibl yn effeithio ar y Cyngor Cymuned, sef mynediad at wybodaeth (Cynghorau Tref a Chymuned). Ynghylch ein darpariaeth fel Cyngor Cymuned, mae'r Cofnodion ar gael ar dudalen yn wefan Ysgol Bontnewydd, ac mae Papur Bro Lleu a'r Herald yn cyhoeddi'r Cofnodion yn ogystal.

**DATGANIAD Y BANC : Balans hyd at 28 Ionawr 2013 yw £12051.95**

<u>Math</u>	<u>Swm</u>	<u>I bwy/ Gan bwy</u>	<u>Dyddiad/Manylion</u>	<u>Balans</u>
			<b>28 TACHWEDD 2012</b>	<b>£12726.31</b>
Siec 101056	£ 41.60	CThem / HMRC (Tach)	Cyf' 12/12 eitem 5.1	£12684.71
Siec 101061	£ 214.18	Cyflog a chostau Rhag'	Cyf' 02/13 eitem 5.1.1	£ 12470.53
Siec 101063	£ 335.38	Cyflog a chostau Ionawr	Cyf' 02/13 eitem 5.1.2	£ 12135.15
Siec 101062	£ 41.60	CThem / HMRC (Ionawr)	Cyf' 02/13 eitem 5.1.1	£ 12093.55
Siec 101064	£ 41.60	CThem / HMRC (Chwef')	Cyf' 02/13 eitem 5.1.2	£ 12051.95
			<b>28 IONAWR 2013</b>	<b>£12051.95</b>

**PRAESEPT 2013/14 : Yn aros fel y llynedd, sef Praesept o £11,000 a grant o £3,000, yn gwneud cyfanswm o £14,000. O ganlyniad, mi fydd y gyllideb yn aros yr un fath, sef:**

<b>INCWM</b>		<b>CYLLIDEB</b>	
Archebiant	£11,000	Yswiriant a Gweinyddu	£ 3,500
Grant	£ 3,000	Cyflogau	£ 2,400
<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>£14,000</b>	Cyffredinol (Reserf)	£ 1,000
		Cynnal a Chadw	£ 3,000
		Rhoddion	£ 3,600
		Datblygu Cymunedol	£ 500
		<b>Cyfanswm Cyllideb</b>	<b>£14,000</b>

**CAIS C12/1042/19/LL Cae'r Efail, Llanfaglan, sydd wedi ei ddiwygio ac sydd nawr yn gais C12/1271/19/LL, oherwydd yr angen am wybodaeth ychwanegol.** Fe drafodwyd y cais gwreiddiol yng nghyfarfod 4 Hydref 2012 a fe benderfynwyd na fyddai'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'r cais cyn belled a'i fod yn unol a pholisi tai fforddiadwy mewn pentref gwledig y Cyngor Sir, fod yna dystiolaeth o'r angen lleol, a bod y cynllun yn addas ar gyfer ei leoliad mewn ardal wledig.

**CAIS C13/0013/19/CR Tyddyn Berth, Bontnewydd**  
**Addasu adeilad allanol yn anecs ac newidiadau i'r adeiladau.**

*Yr un safiad a chais C12/1042/19/LL mewn perthynas a'r cynllun a'i fod yn addas ar gyfer ei leoliad mewn ardal wledig*

#### **LLYTHYR YMDDISWYDDO'R CLERC**

*Darllennodd y Cadeirydd lythyr ymddiswyddo'r clerc, sydd yn nodi 31 Mai 2013 fel ei ddiwrnod olaf fel clerc, ond fe gytunodd i ymestyn y term o hyd at 1 mis ychwanegol pe byddai angen gwneud hynny. Fe ddiolchwyd iddo am ei waith, a mi fydd trefniadau hysbysebu yn cael ei wneud yn fuan. Hefyd, fe fydd y Cyngor Cymuned yn ystyried defnyddio asiant allanol i weinyddu cyflog y clerc newydd oherwydd cymhlethdod y drefn Talu Wrth Ennill newydd, ond mi fydd hyn yn ddibynnol ar allu'r clerc newydd i ddefnyddio'r sustem TWE yntau ddim. Mi fydd angen addasu'r swydd ddisgrifiad er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldebau newydd a mi fydd y clerc yn gwneud hynny yn fuan, gan cylchredeg y swydd ddisgrifiad ymysg yr aelodau er mwyn iddynt paratoi ei sylwadau ymlaen llaw.*

#### **CYNGHORYDD EMYR WILLIAMS : Graeanu**

A oes modd trefnu i Gyngor Gwynedd rhoi bagiau creighalen ar gyfer tua hanner dwsin o drigolion Lon Groes. Mi fydd y Cyngorydd yn barod i drefnu llecynnau i'w cadw.

*Mae'r clerc i drefnu cyfarfod gyda Mr Meirion Williams, Cyngor Gwynedd, i drafod hyn.*

#### **CYNGHORYDD GWYNETH THOMAS : Problemau baw Cŵn**

A oes modd gwneud cais i Gyngor Gwynedd osod arwyddion ynghylch 'baw cŵn' i fyny am Lôn Groes. Mae'n ymddangos ei fod yn broblem sydd yn effeithio fwyaf ar drigolion sydd yn defnyddio'r meysydd parcio.

*Mae'r clerc i drefnu cynnwys y Lôn Groes fel rhan o Gynllun Cyngor Gwynedd i warchod llefydd rhag problemau o'r fath.*

#### **MATERION EITHRIEDIG**

*Fe eithrwyd rhai rhannau o cyflwyniad PC Tapping yn arbennig yn ystod trafodaethau er mwyn diogelu hunaniaeth a chyfrinachedd unigolion.*

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF :** Mawrth 7fed 2013 am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Bontnewydd.

Pe hoffech dderbyn y Cofnodion yn llawn, yna y mae groeso i chi rhoi cais ymlaen l'r clerc drwy e-bost. Ei gyfeiriad yw : [hughesbryn@yahoo.co.uk](mailto:hughesbryn@yahoo.co.uk) a fe gewch y Cofnodion yn rhad ac am ddim.

Os hoffech copi papur drwy'r post, yna cysylltwch a'r clerc gan ysgrifennu ato :

Bryn Hughes

Clerc Cyngor Cymuned Bontnewydd

11 Bro Wyled

Rhostryfan

Caernarfon

LL54 7LP

A cynnwys sic neu Archeb Post yn daladwy i CYNGOR CYMUNED

BONTNEWYDD am £1.00